*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16/07/2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Brian Mottershead, Swyddog Diogelu Data** |
| Pwnc | **Rheoliad Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data y DU 2018** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chydymffurfiaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru â Rheoliad Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data y Deyrnas Unedig 2018.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r cynnydd yn parhau wrth sicrhau cydymffurfiaeth lawn yr Awdurdod â deddfwriaeth newydd ym maes diogelu data. Wrth i fwy o ganllawiau ddod gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth bydd y gwaith yn cael ei gwblhau i ddiwygio neu gyflwyno prosesau a gweithdrefnau newydd.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr aelodau'n nodi ac yn cymeradwyo'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth tuag at gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd ym maes diogelu data.

**CEFNDIR**

4 Daeth Rheoliad GDPR i rym ar 25 Mai 2018. Bwriad y rheoliad hwn yw cryfhau ac uno prosesau diogelu data i unigolion yn yr Undeb Ewropeaidd, a hefyd i fynd i'r afael ag allforio data personol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

5 Cafodd Deddf Diogelu Data y DU 2018 Gydsyniad Brenhinol ar 23 Mai 2018. Bwriad y Ddeddf yw moderneiddio cyfreithiau diogelu data yn y DU i ddiwallu anghenion economi a chymdeithas sy'n mynd yn fwyfwy digidol. Mae'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer diogelu data, yn gweithredu safonau GDPR yn yr holl waith prosesu data cyffredinol, ac yn sicrhau bod y DU yn parhau i gael deddfwriaeth briodol ar gyfer diogelu data ar ôl iddi adael yr Undeb Ewropeaidd.

6 Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn mynnu bod sefydliadau sy'n prosesu data personol yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r data hynny: yn deg, cyfreithiol a thryloyw; ar gyfer resymau penodol, clir; ac mewn ffordd sy'n ddigonol, perthnasol ac wedi'i chyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol yn unig.

7 Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn mynnu hefyd fod sefydliadau yn sicrhau bod y data personol y maen nhw'n eu prosesu: yn gywir, a lle bo angen, yn gyfoes; yn cael eu cadw ddim hirach na sydd ei angen; ac yn cael eu trin mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch priodol, gan gynnwys eu hamddiffyn rhag cael eu prosesu, eu hagor, eu colli, eu dinistrio neu ei difrodi yn anghyfreithlon neu heb ganiatâd.

8 Roedd adroddiad i gyfarfod y Panel Gweithredol yn Chwefror 2018 yn tynnu sylw at rai o ofynion newydd sylweddol y GDPR a'r cynnydd a wneir gan y Gwasanaeth tuag at sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR.

9 Roedd gofynion newydd sylweddol y GDPR yn cynnwys:

a. yr angen i awdurdodau cyhoeddus gael Swyddog Diogelu Data sy'n atebol i'r lefel uchaf o reolwyr yn y sefydliad, sy'n gweithredu'n annibynnol ac yn cael adnoddau digonol i gyflawni'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â GDPR;
b. y rheidrwydd i ddweud wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am rai achosion o dorri data personol, a hynny cyn pen 72 awr ar ôl dod i wybod amdanynt, neu bydd perygl o gael dirwy sydd hyd at €10 miliwn neu 2% o'r trosiant;
c. rhwymedigaeth cyffredinol i integreiddio diogelu data yn agwedd annatod o weithgareddau prosesu, sef diogelu data o'r cychwyn ac fel anghenraid.

10 Cafodd yr aelodau wybod hefyd fod y Gwasanaeth wedi sefydlu tîm prosiect i sicrhau bod Cynllun Gweithredu GDPR yn cael ei gyflawni, gan adrodd yn rheolaidd a monitro cynnydd i'r uwch reolwyr.

**GWYBODAETH**

11 Ers yr adroddiad blaenorol i'r aelodau, mae'r Gwasanaeth wedi cymryd nifer o gamau i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion GDPR. Ond mae camau pellach yn parhau gan fod canllawiau newydd yn parhau i gael eu cyhoeddi gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'n bosibl y bydd yr aelodau'n dymuno nodi bod Bwrdd Diogelu Data Ewrop wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch sefydlu mecanwaith ardystio gwirfoddol i sefydliadau allu dangos eu bod yn cydymffurfio â'r GDPR.

12 Mae gwaith yn parhau yn y Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth lwyr â'r GDPR. Mae'r cynnydd a wnaed ers mis Chwefror 2018 yn cynnwys:

- **Penodi Swyddog Diogelu Data** – Cafodd Brian Mottershead, Rheolwr Prosiect Gweithredu GDPR, ei benodi ar sail interim i swydd Swyddog Diogelu Data, gan ddechrau ar 25 Mai 2018.

- **Hyfforddiant –** Dewiswyd pecyn e-ddysgu ar gyfer GDPR, ac mae wrthi'n cael ei addasu i'w gyflwyno i holl staff y Gwasanaeth.

- **Cyhoeddi hysbysiadau preifatrwydd** – Yn dilyn cyngor y Comisiynydd Gwybodaeth i ddilyn 'dull haenog' o ddarparu gwybodaeth am breifatrwydd i bobl, mae hysbysiad preifatrwydd cyffredinol wedi cael ei osod ar wefan y Gwasanaeth, ynghyd â hysbysiadau preifatrwydd penodol ar gyfer gweithgareddau unigol megis cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach. Drwy strwythuro hysbysiadau preifatrwydd fel hyn, bydd modd cyhoeddi rhai ychwanegol pan fydd angen, a dylai hynny fod yn gymorth i symleiddio'r dasg o'u hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfoes.

- **Mapiau Asedau Gwybodaeth** - Dan GDPR, rhaid i broseswyr data gadw cofnod o'u gweithgareddau prosesu data i ymdrin â chwestiynau megis pam maen nhw'n prosesu'r data, gyda phwy y maen nhw'n eu rhannu, a pha mor hir maen nhw'n eu cadw. Mae cadw Cofrestr Asedau Gwybodaeth yn ffordd o gofnodi pa wybodaeth sy'n cael ei chadw, ble y mae ac ar gyfer beth y mae. Mae hefyd yn haws cydymffurfio ag agweddau eraill ar GDPR megis sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei chadw am bobl yn gywir a diogel.
  Erbyn hyn, crewyd Cofrestr Asedau Gwybodaeth, ac mae wrthi'n cael ei gwirio i wneud yn siŵr ei bod yn gywir a chyflawn.

- **Contractau**: Pryd bynnag y bydd rheolydd data yn defnyddio prosesydd data dylid cael contract i nodi cyfrifoldebau ac atebolrwyddau'r ddwy ochr. Mae GDPR yn nodi beth sydd raid ei gynnwys mewn contractau sy'n cynnwys rhannu data personol. Mae'n bosibl y bydd Comisiwn Ewropeaidd neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu cymal contractau safonol yn y dyfodol, ond nid ydynt wedi gwneud hynny hyd yma. Fodd bynnag, mae canllawiau cynhwysfawr Gwasanaeth Masnachol y Goron ar sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR mewn perthynas â chontractau wedi cael eu mabwysiadu'n eang ar draws y sector cyhoeddus.
  Mae'r holl gontractau y bydd y Gwasanaeth neu'r Awdurdod yn rhan ohonynt ac sy'n golygu rhannu data personol â sefydliadau allanol wrthi'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â GDPR.

- **Polisïau a gweithdrefnau**: Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod gwaith diogelu data yn cael ei integreiddio yn yr holl weithgareddau prosesu ac arferion busnes 'o'r cychwyn' yn hytrach nag fel atodiad.
  Mae holl bolisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â GDPR.

- **Cael gafael ar ddata personol**: Mae gan unigolion hawl i gael eu data personol a rhaid i'r Gwasanaeth ymateb cyn pen mis i 'Gais Mynediad Gwrthrych' gan unigolyn.
  Sefydlwyd proses i helpu i sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth berthnasol ac nad yw ond yn darparu'r wybodaeth y mae gan yr unigolyn hawl cyfreithlon i'w weld, a hynny heb oedi ac erbyn y dyddiad priodol.

- **Torri Data**: Mae'r GDPR yn gosod dyletswydd ar sefydliadau i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am rai mathau penodol o dorri data personol, a hynny cyn pen 72 awr ar ôl dod i wybod am yr achos, lle bo modd. Os yw'r achos o dorri yn debygol o arwain at risg uchel o effeithio'n negyddol ar hawliau a rhyddidau unigolion, rhaid i sefydliadau roi gwybod hefyd i'r unigolion hynny heb oedi diangen.
  Datblygwyd proses i alluogi'r Gwasanaeth i ymateb yn briodol a phrydlon i achosion posibl o dorri data personol.

13 Mae Tîm Prosiect Gweithredu GDPR yn parhau i gwrdd i fonitro cynnydd ac i ganfod y camau angenrheidiol, ac mae adroddiadau rheolaidd yn parhau i gael eu darparu i Grŵp Gweithredol y Gwasanaeth.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ni chanfuwyd dim. |
| Cyllideb | Arian ar gyfer y swydd statudol newydd sef Swyddog Diogelu Data. Gwariant posibl ar fesurau technegol priodol i hwyluso cydymffurfiaeth. |
| Cyfreithiol | Fel awdurdod cyhoeddus, rhaid i ATAGC gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. |
| Staffio | Staff presennol yw aelodau'r tîm prosiect gweithredu. Creu swydd newydd, sef Swyddog Diogelu Data. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd dim. |
| Risgiau | Risg o gael dirwyon a drwg i enw da os yw'r Awdurdod yn methu â chydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data. |